

Prawf Rhifedd Ffwythiannol mewn Cyd-destun Proffesiynol SAMPL

TAR Cynradd 30 munud. Ni chaniateir cyfrifiannell.

Rhowch eich atebion yn y bylchau a roddwyd. Dangoswch eich gwaith meddwl yn y bylchau a roddwyd.

Enw: _____ Grŵp: _____

Cwestiwn 1

Cynlluniwyd bod noson rieni'n cychwyn am 16:15. Roedd yna 20 o apwyntiadau olynol 10 munud yr un ac egwyl o 15 munud yn ystod y noson. **Am faint o'r gloch oedd y noson rieni i fod i orffen?**

Rhowch eich ateb gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.

A: _____ (1m)

Cwestiwn 2

Trefnodd athrawon weithgareddau ar gyfer pum dosbarth a chanddynt 28 o ddisgyblion yr un a phedwar dosbarth a chanddynt 29 o ddisgyblion yr un. Beth oedd **cyfanswm nifer y disgyblion** oedd yn cymryd rhan?

A: _____ disgybl (1m)

Cwestiwn 3

Ar gyfer trip, mae polisi ysgol yn gofyn am gymhareb oedolyn i blentyn o 1:8. Mae 212 o ddisgyblion yn mynd ar y trip ac mae yna 12 o athrawon a 7 cynorthwydd addysgu. Faint o **oedolion ychwanegol** y bydd eu hangen fel bod y gymhareb yn 1:8?

A: _____ o oedolion **ychwanegol** (1m)

Cwestiwn 4

Aeth athro â grŵp o ddisgyblion i amgueddfa pan oeddynt yn ymweld â Ffrainc. Cyfanswm y gost i fynd i mewn i'r amgueddfa i'r grŵp cyfan oedd 420 ewro. Gan ystyried bod 1.05 ewro'n gyfwerth ag 1 punt, beth oedd **cyfanswm y gost mynediad, mewn punnoedd**, ar gyfer y grŵp o ddisgyblion?

A: £ _____ (1m)

Cwestiwn 5

Roedd ar athro angen 45 mililitr o finegr ar gyfer pob disgybl i gynnal arbrawf gwyddoniaeth. Roedd yna 30 o ddisgyblion yn y dosbarth. Daw finegr mewn poteli 0.5 litr. **Sawl potel** o finegr oedd eu hangen?

A: _____ potel (1m)

Cwestiwn 6

Mae'r tabl isod yn dangos y tymheredd uchaf ac isaf a gofnodwyd yng Nghymru a'r Ffindir yn 2013.

Gwlad	Tymheredd Uchaf yn yr Haf (°C)	Tymheredd Isaf yn y Gaeaf (°C)
Cymru	31	-15
Ffindir	29	-26

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y tymheredd isaf yn y gaeaf yng Nghymru a'r Ffindir?

A: _____ °C (1m)

Cwestiwn 7

Ar gyfer trip ysgol sy'n costio cyfanswm o £248, roedd saith wythfed y gost ar gyfer trafnidiaeth. Beth oedd cost y drafnidiaeth?

A: £ _____ (1m)

Cwestiwn 8

Gofynnwyd i holl aelodau dosbarth a chanddo 32 o ddisgyblion ddod â 12 cacen yr un ar gyfer gwerthiant cacennau i elusen. Gwerthwyd pob cacen am 20c yr un. Faint o arian a gododd y dosbarth?

Rhowch eich ateb mewn punnoedd.


A: £ _____ (1m)

Cwestiwn 9

Arhebodd athro Sbaeneg 35 CD sy'n costio £10.99 yr un. Beth yw **cyfanswm cost** y CDs hyn **mewn punnoedd**?

A: £ _____ (1m)

Cwestiwn 10



Pleidleisiodd 10 o blant dros bêl-rwyd.

Faint wnaeth bleidleisio dros rygbi?

Faint o blant wnaeth bleidleisio i gyd?

2m

Cwestiwn 11

Yn ystod cyfarfod staff, cyflwynodd y Pennaeth y tabl a ganlyn, sy'n dangos nifer y disgyblion ym mhob dosbarth mewn ysgol sy'n cael cymorth darllen ychwanegol.

Dosbarth	Nifer y disgyblion	Nifer y disgyblion sy'n cael cymorth darllen ychwanegol
1	23	5
2	23	4
3	27	7
4	27	5
5	25	4

Beth yw canran y disgyblion sy'n cael cymorth darllen ychwanegol yn yr ysgol?

A: _____ % (1m)

Cwestiwn 12

Mae athro'n prynu geiriaduron i bob disgybl mewn grŵp blwyddyn eu defnyddio. Daw'r geiriaduron mewn pecynnau o 16. Sawl pecyn sydd eu hangen ar gyfer grŵp blwyddyn a chanddo 250 o ddisgyblion?

A: £ _____ (1m)

Cwestiwn 13

Dyma sgorau gêm:

20 22 16 27 19 16

Beth yw'r amrediad?

A: _____ **(1m)**

Cwestiwn 14

Mae darn siâp petryal o dir yr ysgol yn 6.7m o led a 10.8m o hyd. Beth yw perimedr y darn o dir?

A: _____ **m (1m)**


Cwestiwn 15

Mae Dev ac Anna wedi buddsoddi £500 yr un.

Ar ôl blwyddyn

Dev £500 wedi lleihau 5%	Anna £500 wedi cynyddu 15%
--	--

Ar ôl blwyddyn, faint yn fwy o arian sydd gan Anna na Dev?



1m


Cwestiwn 16

Mae athro'n teithio i gynhadledd yng Nghaerdydd. Ei gyflymder cyfartalog yw 50 milltir yr awr. Os oes yn rhaid i'r athro deithio 75 milltir, pa mor hir y dylai'r daith i'r gynhadledd gymryd?

A: _____ awr (1m)

Cwestiwn 17

Dadansoddodd athro berfformiad 60 o ddisgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 5.



Cafodd disgyblion y barnwyd eu bod wedi cyflawni lefel 3 neu is eu targedau ar gyfer cymorth ychwanegol.

Pa ffracsiwn o'r disgyblion oedd ag angen cymorth ychwanegol? Rhwch eich ateb fel ffracsiwn yn ei dermau isaf.

A: _____

Cwestiwn 18

Mewn cystadleuaeth naid hir, cofnodwyd y sgoriau a ganlyn:

<i>Enw</i>	<i>Naid (mewn metrau)</i>
Tomos	1.01
Talia	0.74
Ali	1.1
Samir	0.9
Jess	1.05
Rhian	1.15

Rhestrwch y canlyniadau yn eu trefn ***ddisgynnol***

A: _____